# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 7 Mai 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

# 205(v3)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Adroddiad y Comisiwn Gwaith Teg

(45 munud)

## 4 Dadl: Mynd i'r Afael â Hiliaeth ac Anghydraddoldeb Hiliol

(60 munud)

**NDM7041** - Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cefnogi:

a) yn galonnog y frwydr fyd-eang i ddiwreiddio hiliaeth ac ideoleg hiliol ac yn ymdrechu tuag at Gymru fwy cyfartal, gan fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol o bob math; a

b) egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu ar sail Hil.

2. Yn galw ar Gomisiwn y Cynulliad ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru i hwyluso'r gwaith o lunio datganiad trawsbleidiol, yn crynhoi egwyddorion Diddymu Pob Math o Wahaniaethu ar sail Hil mewn ymgynghoriad â'r unigolion a'r sefydliadau mwyaf priodol.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu ar sail Hil *(Saesneg yn unig)*

**Cyd-gyflwynwyr**
Darren Millar (Gorllewin Clwyd)
Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

## 5 Dadl: Y Model Gofal Sylfaenol i Gymru

(60 munud)

**NDM7042** – Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r camau a gymerir i drawsnewid gwasanaethau yn unol â'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru.

Model Gofal Sylfaenol i Gymru

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu y bydd rhai o'r nodau yn y model gofal sylfaenol ar gyfer gwasanaethau meddygol cyffredinol yn cael eu tanseilio gan yr argyfwng recriwtio presennol o ran meddygon teulu.

**Gwelliant 2** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod heriau o ran recriwtio meddygon teulu wedi arwain at gau practisau meddygon teulu, practisau'n cael eu rheoli gan fyrddau iechyd lleol, dibyniaeth gynyddol ar feddygon locwm a bylchau yn rotas gwasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau.

**Gwelliant 3** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith nad yw Cymru yn hyfforddi nifer digonol o feddygon teulu newydd i ddiwallu anghenion pobl Cymru.

**Gwelliant 4** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r anghydfod parhaus rhwng cynrychiolwyr meddygon teulu a Llywodraeth Cymru ynghylch indemniad meddygon teulu a'r effaith niweidiol bosibl y gallai hyn ei chael ar recriwtio meddygon teulu.

**Gwelliant 5** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cynyddu nifer y lleoedd hyfforddi meddygon teulu yng Nghymru;

b) cynyddu cyfran cyllideb y GIG a ddyrennir i ofal sylfaenol; ac

c) mynd i'r afael â phryderon cyrff sy'n cynrychioli meddygon teulu ynghylch indemniad meddygon teulu.

## 6 Cyfnod pleidleisio

## 7 Anerchiad gan y Llywydd i nodi ugain mlynedd ers datganoli

(15 munud)

## 8 Anerchiad gan y Prif Weinidog i nodi ugain mlynedd ers datganoli

(15 munud)

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 8 Mai 2019